



Cynllun Pryderon Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol QAA

**Sut i godi pryderon gyda QAA a sut y
bydd QAA yn ymateb**

Rhagfyr 2025

Cynnwys

Diben y Cynllun Pryderon Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol	3
Cefndir	3
Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon?	3
Pa ddarparwyr sy'n dod o dan y Cynllun?	3
Pa fathau o faterion y gall y Cynllun edrych arnynt?	4
Pwy all godi pryderon?	5
Sut alla i godi pryder?	5
Beth am chwythwyr chwiban?	5
Sut mae pryderon yn cael eu hymchwilio	6
Sgrinio	7
Ymchwiliad	7
Ymchwiliadau a gynhaliwyd fel rhan o weithgaredd adolygu	7
Ymchwiliad Cam Un	8
Ymchwiliad Cam Dau	8
Canlyniadau.....	8
Cynllun gweithredu a chymeradwyaeth.....	9
Pryderon ynghylch rhaglenni a gyflwynir gydag eraill.....	10
Gweithio gyda sefydliadau eraill	10
Amserlenni.....	10
Amddiffyn y rhai sy'n codi pryderon – Preifatrwydd a Diogelu Data	11
Cynrychioliadau	11
Cysylltu â ni	11
Atodiad 1: Canlyniadau o ymchwiliadau i bryderon	12
Atodiad 2: Diogelu Data.....	14

Diben y Cynllun Pryderon Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol

1. Mae'r Cynllun Pryderon Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol (EOR) yn caniatáu i fyfyrwyr, staff ac unigolion neu sefydliadau eraill godi pryderon ynghylch safonau academiaidd ac ansawdd addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr annibynnol sy'n cael eu hadolygu gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) naill ai ar gyfer **dynodiad cwrs penodol** neu **oruchwyliaeth addysgol**.

Cefndir

2. Yn y DU, prifysgolion a cholegau unigol (weithiau'n gweithio mewn partneriaeth â chyrrff dyfarnu graddau) sy'n bennaf gyfrifol am gynnal safonau academiaidd dyfarniadau a darparu profiad o ansawdd uchel i fyfyrwyr. Mae tystiolaeth o'n hadolygiadau yn dangos bod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn effeithiol. Lle mae problemau'n codi, mae QAA wedi ymrwmo i fynd i'r afael â nhw'n brydlon, ac mewn achosion sy'n dynodi problemau systemig difrifol, byddwn yn defnyddio'r Cynllun i ymyrryd.

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon?

3. Bwriedir y canllaw hwn ar gyfer y rhai sydd am ddod â phryder i sylw QAA. Noder bod 'ni' yn cyfeirio at QAA a 'chi' at y person neu'r sefydliad sy'n codi pryderon drwyddo draw. Mae hefyd yn disgrifio'r broses er budd y darparwyr y codir pryderon amdanynt.

Pa ddarparwyr sy'n dod o dan y Cynllun?

4. Mae'r Cynllun Pryderon EOR yn berthnasol yn unig i ddarparwyr addysg uwch annibynnol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n cael eu hadolygu gan QAA o dan y dull Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol y mae Cynllun Pryderon EOR yn berthnasol, naill ai ar gyfer **dynodiad cwrs penodol** neu **oruchwyliaeth addysgol**.
5. Dyma'r trefniadau ar gyfer mathau eraill o ddarparwyr:
 - mae pryderon ynghylch prifysgolion a ariennir yn gyhoeddus yn yr Alban wedi'u cynnwys yng [Nghynllun Pryderon Ansawdd yr Alban](#), a weinyddir gan QAA
 - mae pryderon ynghylch prifysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr annibynnol sydd wedi'u cofrestru gyda'r Swyddfa ar gyfer Myfyrwyr (OfS) yn Lloegr wedi'u cynnwys yn y [weithdrefn Hysbysu](#) a redir gan OfS
 - mae pryderon ynghylch prifysgolion a cholegau addysg bellach yng Ngogledd Iwerddon wedi'u cynnwys yn y weithdrefn [Hysbysu](#) a redir gan yr Adran dros yr Economi yng Ngogledd Iwerddon
 - mae pryderon ynghylch darparwyr addysg uwch a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru wedi'u cynnwys yn y [weithdrefn gwyno](#) gan Medr. Mae'r weithdrefn yn darparu mecanwaith y gellir cyfeirio pryderon ynghylch safonau academiaidd neu ansawdd profiad myfyrwyr mewn sefydliadau rheoleiddiedig at QAA i'w hymchwilio.

6. Os nad ydych chi'n gwybod pa un o'r categorïau hyn y mae'r darparwr rydych chi'n pryderu amdano yn perthyn iddo, gofynnwch i ni.

Pa fathau o faterion y gall y Cynllun edrych arnynt?

7. Mae QAA yn ymchwilio i bryderon sy'n dynodi problemau systemig neu weithdrefnol difrifol sy'n cyflwyno risg gyfredol neu barhaus yn un o'r meysydd canlynol:
- safonau academiaidd y cymhwyster/cymwysterau a ddyfernir gan y darparwr
 - ansawdd cyfleoedd dysgu myfyrwyr.
8. Wrth sôn am systemig, rydym yn golygu pryder sy'n effeithio ar, neu sydd â'r potensial i effeithio ar, nifer o fyfyrwyr, buddiannau cyfunol myfyrwyr, neu'r cyhoedd neu'r sector ehangach yn fwy cyffredinol.
9. **Ni allwn ystyried** pryderon ansawdd sy'n gysylltiedig â:
- materion barn academiaidd, megis canlyniadau asesiadau a phenderfyniadau'r bwrdd asesu, a cheisiadau i ail-farcio gwaith a aseswyd
 - achosion unigol a cheisiadau am unioni neu ad-daliadau ffioedd dysgu
 - cwynion yn erbyn staff unigol
 - problemau y mae'r Sefydliad Addysg Uwch (SAU) eisoes wedi'u cywiro
 - camgymeriadau neu ddigwyddiadau unigol o arfer gwael
 - materion hanesyddol lle nad oes tystiolaeth mewn perthynas ag effaith barhaus neu bryderon ailadroddus a godwyd gan yr un unigolyn ar yr un mater.
10. Pan fydd mater a godwyd fel rhan o bryder yn cael ei drin drwy achos cyfreithiol ffurfiol, bydd y broses Pryderon yn cael ei hatal tra'n aros am ganlyniad yr achos cyfreithiol.
11. **Ni allwn roi iawndal na digolledu unrhyw un sy'n cyflwyno pryder i ni.**
12. Mae Cynllun Pryderon EOR yn ymateb i'r mater yn hytrach na'r unigolyn; nid proses gwyno mohono ac ni fydd QAA yn darparu ymatebion manwl i unigolion ynghylch y camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i bryderon ansawdd a godwyd. Dylid codi cwynion unigol drwy broses gwyno'r darparwr neu, os yw proses y darparwr eisoes wedi'i disbyddu, gyda [Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol \(OIA\)](#), neu [Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban \(SPSO\)](#). Mae'r prosesau hyn ar waith i alluogi ateb unigol i gwynion a godwyd. I'r gwrthwyneb, defnyddir gwybodaeth a geir gan QAA drwy'r Cynllun hwn i nodi lle mae'r materion a godwyd yn dynodi problemau systemig neu weithdrefnol difrifol. O'r herwydd, nid yw'n briodol rhannu canlyniadau manwl gyda'r rhai sy'n codi pryderon ansawdd gan y bydd y mater yn mynd y tu hwnt i'r mater unigol a godwyd. Fodd bynnag, mae QAA wedi ymrwymo i ddull tryloyw ac yn unol â hynny mae'n cyhoeddi pob adroddiad ymchwiliad Cam 2 yn ogystal â chyhoeddi adroddiad cryno blyneddol o bryderon ansawdd. Bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am y camau gweithredu a gymerwyd yn y camau a amlinellir

yn Ffigur 1 (gweler tudalen 6) ond am y rhesymau a amlinellir uchod, ni fydd unrhyw fanylion pellach yn cael eu darparu.

Pwy all godi pryderon?

13. Rydym yn croesawu pryderon gan unrhyw un, gan gynnwys myfyrwyr, staff, arholwyr allanol, aelodau'r cyhoedd a chyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol, yn y DU neu rywle arall. Gall QAA ei hun godi pryderon lle mae'n nodi tystiolaeth sy'n dynodi problemau systemig difrifol wrth gyflawni ei gweithgareddau eraill.

Sut alla i godi pryder?


14. Os ydych chi'n fyfyrwr neu'n aelod o staff, dylech chi godi'r mater yn uniongyrchol gyda'r darparwr yn gyntaf drwy ei weithdrefnau mewnol cyn gwneud cyflwyniad i QAA. Os na fydd y darparwr yn datrys y mater, ac mae'n un sy'n dod o dan gwmpas Cynllun Pryderon EOR, gellir ei godi gyda ni. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, efallai y byddwn yn gwneud ymholiadau neu'n ymchwilio cyn i'r darparwr gwblhau ei ymchwiliad ei hun.
15. Dylech godi pryder gyda QAA drwy ddefnyddio ein [Ffurflen Gyflwyno](#).
16. Os oes angen i ni gyfathrebu mewn ffordd benodol, er enghraifft oherwydd anabledd, cysylltwch â ni yn Concerns@qaaacuk.onmicrosoft.com neu ffoniwch 01452 557000 (neges llais yn unig).
17. Ni all QAA ymchwilio i bryderon sydd heb sail o gwbl. Felly, dylai eich cyflwyniad, lle bo'n rhesymol ymarferol, gynnwys tystiolaeth. Gallai hyn fod ar ffurf gohebiaeth, papurau pwyllgor neu adroddiadau. Efallai y byddwch yn gallu gwneud cais i'r darparwr o dan y *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth*, neu drwy Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun, i gael gwybodaeth i gefnogi eich cyflwyniad. Os na allwch gael copiâu o ddogfennaeth yr hoffech ei chynnwys fel tystiolaeth, ond gallwch ddangos cred resymol ei bod yn bodoli, esboniwch hyn yn eich cais.

Beth am chwythwyr chwiban?

18. Rydym wedi ymrwymo i ystyried pryderon o bob ffynhonnell, gan gynnwys gan fyfyrwyr neu staff sy'n ofni y gallai codi pryderon arwain at ryw fath o gosb gan y darparwr y maent yn pryderu amdano.
19. Os ydych chi'n teimlo'n anghyfforddus ynglŷn â chodi eich pryderon gyda'r darparwr cyn eu codi gyda ni, efallai y byddwn ni'n gallu cysylltu â'r darparwr yn uniongyrchol a gofyn am dystiolaeth am y mater yr ydych chi'n pryderu amdano.
20. Cysylltwch â ni yn Concerns@qaaacuk.onmicrosoft.com a gallwn siarad â chi am ein dull gweithredu gan gynnwys y pethau y gallwn eu gwneud i ddiogelu eich hunaniaeth.

Sut mae pryderon yn cael eu hymchwilio

Ffigur 1 - Trosolwg o sut rydym yn ymchwilio i bryderon



Sgrinio

21. Diben sgrinio yw pennu a yw'r pryder yn dod o fewn cwmpas yr hyn y gall QAA ymchwilio iddo. Cynhelir sgrinio gan Swyddog QAA a fydd yn ystyried:

- a yw'r pryder yn ymwneud â darparwr y gellir ymchwilio iddo o dan Gynllun Pryderon EOR
- a yw wedi mynd trwy a chwblhau'r holl weithdrefnau mewnol a weithredir gan y darparwr - er enghraifft, apeliadau academaidd a chwynion
- a yw wedi'i gyflwyno ar y ffurflen briodol ac a yw'n cynnwys tystiolaeth ddogfennol
- a oes digon o fanylion a gwybodaeth yn y cyflwyniad. Efallai y byddwn yn gofyn i chi am ragor o wybodaeth ar y cam hwn.

22. Bydd pryderon sydd yn amlwg y tu allan i'r cwmpas yn cael eu sgrinio allan ar y cam hwn (gweler 'Pa fathau o faterion y gall y Cynllun edrych arnynt' uchod). Os caiff y pryder ei sgrinio allan, byddwn yn egluro ein penderfyniad i'r ymgeisydd.

23. Os yw'r pryder yn dod o fewn cwmpas yr hyn y gall QAA ymchwilio iddo, byddwn yn hysbysu'r darparwr dan sylw am y materion a godwyd, gan gymryd camau i ddiogelu hunaniaeth yr ymgeisydd yn ôl yr angen. Bydd QAA yn cynnal achosion pryderon EOR gyda chwarteisi, parch a thegwch. Bydd uwch reolwyr yn QAA yn ystyried pryderon ansawdd. Efallai y byddwn hefyd yn trosglwyddo gwybodaeth i sefydliadau eraill, fel Corff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol cysylltiedig, os ydym yn credu y gallai eu cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau.

Ymchwiliad

24. Os ydym yn credu bod y pryder o fewn cwmpas yr hyn y gallwn ymchwilio iddo, byddwn yn bwrw ymlaen ag ymchwiliad.

Ymchwiliadau a gynhaliwyd fel rhan o weithgaredd adolygu

25. Pan fydd gan y darparwr ymweliad adolygiad QAA wedi'i drefnu neu pan fydd yn cynnal monitro blynyddol o fewn yr ychydig fisoedd nesaf, byddwn fel arfer yn ymchwilio i'r pryder fel rhan o'r broses honno yn hytrach na chynnal ymchwiliad ar wahân. Os byddwn yn dewis ymchwilio yn y ffordd hon, byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth a'r dystiolaeth gysylltiedig i'r tîm. Byddwn yn egluro natur y pryder i'r darparwr ac yn eu gwahodd i roi ymateb i'r tîm adolygu. Gall barn ddilynol y tîm ar ddifrifoldeb a dilysrwydd y pryder effeithio ar ganlyniad yr adolygiad.

26. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Atodiad 2 o'r *Canllawiau Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol ar gyfer Darparwyr*, sydd ar gael ar [wefan QAA](#).

27. Lle nad yw ymweliad adolygiad nesaf y darparwr neu weithgaredd monitro blynyddol i fod i ddigwydd o fewn yr ychydig fisoedd nesaf, byddwn fel arfer yn ymchwilio ar wahân, fel a ganlyn.

28. Fel arfer, rydym yn ymchwilio i bryderon mewn dau gam. Lle mae tystiolaeth sylweddol a chymhellol o fodolaeth risg gyfredol neu barhaus i safonau, ansawdd a/neu wybodaeth,

efallai y byddwn yn cyflymu'r ymchwiliad trwy symud yn uniongyrchol i ymchwiliad Cam Dau.

Ymchwiliad Cam Un

29. Yn achos pryderon sy'n ymddangos fel pe baent o fewn cwrpas y cynllun ond lle mae'r sail dystiolaeth yn amwys neu'n anghyflawn, efallai y byddwn yn ceisio casglu ac ystyried mwy o dystiolaeth cyn symud ymlaen ymhellach. Mae hyn yn debygol o olygu gohebiaeth ysgrifenedig gyda'r darparwr i benderfynu a yw'n ymwybodol o'r pryder ac, os yw, sut y mae wedi delio ag ef, neu sut mae'n delio ag ef. Gall hefyd olygu gohebiaeth â sefydliadau eraill, megis Cyrff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol cysylltiedig.
30. Ar ddiwedd y broses hon, byddwn yn penderfynu ar sail y dystiolaeth ychwanegol a gasglwyd gennym a ddylid bwrw ymlaen ag ymweliad â'r darparwr (ymchwiliad Cam Dau) neu ddod â'r ymchwiliad i ben. Os gall y darparwr ddangos ei fod wedi delio â'r mater yn foddhaol, yna gall hynny fod yn rheswm dros ddod â'r broses i ben ar y pwynt hwn. Os penderfynwn ddod â'r ymchwiliad i ben ar y cam hwn, byddwn yn egluro ein penderfyniad i'r ymgeisydd.

Ymchwiliad Cam Dau

31. Os bydd ymchwiliad Cam Un yn datgelu digon o dystiolaeth o bryder, byddwn yn symud ymlaen i ymchwiliad Cam Dau sy'n cynnwys ymweliad â'r darparwr i gyfarfod â staff a myfyrwyr. Gellir cynnal yr ymweliad naill ai ar-lein neu ar y safle.
32. Byddwn yn egluro natur y pryder i'r darparwr yn glir ac yn darparu cyfleoedd priodol i'r darparwr ymateb iddo.
33. Bydd Swyddog QAA yn arwain yr ymchwiliad a gall hefyd gynnwys adolygwyr QAA a/neu gynrychiolwyr Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol, yn dibynnu ar natur y pryder a'i gymhlethdod. Byddwn yn gwirio i sicrhau nad oes gan unrhyw un sy'n ymwneud â'r ymchwiliad wrthdaro buddiannau â'r darparwr dan sylw.
34. Fel arfer, bydd ymweliad ymchwilio yn para am un neu ddau ddiwrnod yn dibynnu ar gymhlethdod y materion, nifer y rhaglenni yr effeithir arnynt, ac a yw darparwyr eraill (megis cyrff dyfarnu graddau) yn gysylltiedig. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen ymweliadau pellach cyn y gall y tîm ymchwilio ddod i gasgliad cadarn.

Canlyniadau

35. Canlyniad ymchwiliad Cam Dau fydd adroddiad a gyhoeddir ar wefan QAA. Bydd yr adroddiad yn disgrifio'r pryderon a godwyd, y dystiolaeth a ystyriwyd, a chanfyddiadau QAA ynghylch a yw'r dystiolaeth yn cefnogi'r pryder.
36. Gall yr adroddiad hefyd wneud sylwadau ar faterion eraill nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r pryder gwreiddiol, ond sy'n dod i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad. Os bydd yr ymchwiliad yn canfod nad oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r pryder, neu fod y darparwr eisoes wedi ymdrin â'r pryder yn foddhaol, yna ni fydd angen unrhyw gamau gweithredu pellach. Os canfyddir dystiolaeth i gefnogi'r pryder, gwneir argymhellion ar gyfer gweithredu i gefnogi'r darparwr i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd, a gofynnir am

gynllun gweithredu. Amlinellir rhagor o fanylion am argymhellion ar gyfer gweithredu a chanlyniadau ymchwiliad yn Atodiad 1.

37. Byddwn yn rhannu drafft o'r adroddiad gyda'r darparwr fel y gall wneud sylwadau ar gywirdeb ffeithiol y cynnwys. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu'r adroddiad drafft er gwybodaeth gyda:
- unrhyw gyrrff dyfarnu a sefydliadau ariannu er gwybodaeth
 - darparwyr Categori A EOR, y Swyddfa Gartref.
38. Byddwn yn ei gwneud yn glir i'r sefydliadau hyn nad yw'r canlyniadau yn yr adroddiad wedi'u cwblhau nes bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi.
39. Mae unrhyw gosbau neu sancsiynau a osodir o ganlyniad i ymchwiliad Pryderon QAA gan y corff dyfarnu neu'r Swyddfa Gartref yn ôl disgrisiwn y sefydliadau hynny ac maent y tu hwnt i reolaeth neu ddylanwad QAA.
40. Gall ymchwiliad arwain at QAA yn tynnu trwydded y darparwr yn ôl i ddefnyddio Graffeg Adolygiad QAA.

Cynllun gweithredu a chymeradwyaeth

41. Lle gofynnir am gynllun gweithredu, rhaid cytuno arno gyda QAA a rhaid iddo fynd i'r afael â'r argymhellion yn llawn. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y cynllun gweithredu yn cael ei gyhoeddi ar ei wefan a'i fod yn cwblhau'r cynllun gweithredu mewn modd amserol. Bydd QAA hefyd yn cyhoeddi dolen i'r cynllun gweithredu ar ei wefan. Bydd QAA yn monitro'r cynllun gweithredu ac yn gofyn am dystiolaeth o'i gwblhau. Pan fydd QAA yn gofyn am gynllun gweithredu, mae'r weithdrefn fel a ganlyn:
- mae'r darparwr yn cyflwyno cynllun gweithredu, y cytunir ei fod yn addas at y diben gan QAA, neu'n cael ei ddychwelyd i'r darparwr i wneud gwaith pellach. Cyhoeddir y cynllun gweithredu y cytunwyd arno gan y darparwr ar ei wefan, a darperir dolen i QAA ac ychwanegir hi at dudalen y darparwr ar wefan QAA
 - mae'r Swyddog QAA yn cadw mewn cysylltiad â'r darparwr i fonitro cynnydd
 - pan fydd y camau gweithredu wedi'u cwblhau, gall y Swyddog QAA gyfarfod gyda'r darparwr i gadarnhau hyn
 - mae'r Swyddog QAA yn ysgrifennu atodiad i'r adroddiad ymchwiliad cyhoeddedig yn manylu ar sut aethpwyd i'r afael ag argymhellion QAA
 - mae QAA yn llofnodi'r adroddiad wedi'i ddiweddarau a'i ailgyhoeddi
 - ychwanegir datganiad ar wefan QAA yn cadarnhau bod y cynllun gweithredu wedi'i gwblhau.
42. Lle bo'n briodol, gellir defnyddio gweithgaredd adolygu neu fonitro nesaf y darparwr i fonitro cynnydd gyda'r cynllun gweithredu neu i gymeradwyo'r cynllun gweithredu fel un cyflawn. Os yw'r cynllun gweithredu yn parhau i fod yn anghyflawn ar adeg yr ymweliad,

bydd angen camau dilynol pellach. Mewn achosion lle nodir problemau difrifol, bydd gofyn i'r darparwr gael adolygiad llawn. Gellir dod o hyd i fanylion pellach yn Atodiad 1.

Pryderon ynghylch rhaglenni a gyflwynir gydag eraill

43. Pan fo pryder yn ymwneud â darpariaeth a gyflwynir mewn partneriaeth rhwng darparwr annibynnol sy'n dod o dan y cynllun hwn a chorff dyfarnu graddau nad yw, byddwn fel arfer yn cyfeirio ein hymholiadau at y darparwr sy'n cyflwyno'r ddarpariaeth ac yn hysbysu'r corff dyfarnu bod pryder wedi dod i law.

Gweithio gyda sefydliadau eraill

44. O bryd i'w gilydd, mae QAA yn cael gwybod am bryderon difrifol sy'n cynrychioli risgiau i safonau academiaidd ac ansawdd yn ogystal â meysydd nad ydym yn gyfrifol am ymchwilio iddynt, megis diogelwch myfyrwyr, amhriodoldeb ariannol a chamddefnyddio'r system fisa myfyrwyr. Mewn achosion o'r fath, efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth am ein gwaith gyda sefydliadau eraill, yn derbyn ac yn defnyddio gwybodaeth ganddynt a/neu'n cynnal ymchwiliadau ar y cyd.

Amserlenni

45. Rydym yn ymdrechu i ymchwilio i bryderon yn gyflym ac yn drylwyr ac yna cyhoeddi ein canfyddiadau.
46. Mae pa mor hir y mae'n ei gymryd i ni ymchwilio yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys cymhlethdod y mater a'r cyflymder a'r rhwyddineb y gallwn gael tystiolaeth ategol.
47. Mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth am amserlenni dangosol. Mewn rhai achosion, bydd yn bosibl i ni gwblhau ein gwaith yn gyflymach. Mewn achosion eithriadol gall ymchwiliad gymryd mwy o amser, fel pan fydd y pryderon yn ymwneud â chyfleoedd dysgu a gyflwynir gydag eraill, gan olygu bod angen ymweliadau â chyrff cyflwyno a dyfarnu ar wahân. Rydym yn gyfrifol i'n Bwrdd am gwblhau ein gwaith o fewn yr amserlenni hyn.

Amser ar ôl cyflwyno	
0	Cyflwynir gwybodaeth i QAA a darperir tystiolaeth ohoni
1-5 diwrnod	QAA yn cydnabod derbyn y wybodaeth yn ysgrifenedig
2-4 wythnos	O fewn pedair wythnos, bydd QAA yn sgrinio'r cyflwyniad ac yn hysbysu'r sawl sy'n ei gyflwyno a yw'n rhywbeth y gallwn ymchwilio iddo
9-13 wythnos	QAA yn cynnal ymchwiliad Cam Un
13-24 wythnos	Os oes angen, bydd QAA yn cynnal ymchwiliad Cam Dau ac yn cyhoeddi'r canlyniadau
24-28 wythnos	Os oes angen, mae'r darparwr yn cynhyrchu cynllun gweithredu

28-36 wythnos	Mae'r darparwr yn cwblhau'r cynllun gweithredu ac fe'i llofnodir gan QAA
38 wythnos	QAA yn ychwanegu atodiad at adroddiad yr ymchwiliad ac mae'r adroddiad yn cael ei ailgyhoeddi

Amddiffyn y rhai sy'n codi pryderon – Preifatrwydd a Diogelu Data

48. Ni ystyrir pryderon ynghylch safonau academiaidd ac ansawdd yn ddatgeliadau cymwys o dan *Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998*. Felly, ni chynigir amddiffyniad cyfreithiol o dan y Ddeddf i'r rhai sy'n cyflwyno pryderon i ni, felly os ydynt yn dymuno aros yn ddiennw, mae angen iddynt wneud hyn yn glir ar y ffurflen cyflwyno pryderon. Cofiwch, fodd bynnag, er y gwneir pob ymdrech i ddiogelu hunaniaeth y sawl sy'n codi'r pryderon, efallai y bydd y darparwr yn gallu eu hadnabod o natur y materion a godwyd neu'r dystiolaeth a gyflwynwyd.
49. Rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol unigolion sy'n cyflwyno pryderon i'r Cynllun ar sail buddiant cyfreithlon: hyrwyddo a chynnal ansawdd a safonau mewn addysg uwch.
50. Pan fyddwn yn rhannu gwybodaeth am bryderon gyda chyrff eraill (fel y disgrifir uchod), ni fyddwn byth yn rhannu data personol (gan gynnwys enw a manylion cyswllt) sy'n ymwneud â'r person sy'n codi'r pryderon os ydynt wedi gofyn am aros yn ddiennw. Pan fydd y person wedi gofyn am aros yn ddiennw, byddwn naill ai'n anonymeiddio, neu'n rhoi dan ffugenw, y manylion a rannwn, gan wneud pob ymdrech i ddiogelu hunaniaeth yr unigolyn.
51. Bydd y manylion personol a ddarperir gan unigolion sy'n cyflwyno pryderon yn cael eu storio'n ddiogel ar ein systemau mewnol, gyda chaniatâd mynediad cyfyngedig yn cael ei gymhwyso. Rydym yn cadw gwybodaeth am ymchwiliadau i bryderon am 10 mlynedd, cyn ei dinistrio'n ddiogel. Ar ôl cau achos, caiff unrhyw fanylion personol a gedwir ar ffeil eu dileu, a chaiff y wybodaeth ei hanonymeiddio, ei ffugenwi, neu ei hamgryptio am weddill y cyfnod cadw. Cyfeiriwch at Atodiad 2 am ragor o wybodaeth.

Cynrychioliadau

52. Ni chaniateir i ddarparwyr addysg uwch sy'n destun ymchwiliad Cam Dau apelio yn erbyn y canlyniadau, ond gallant wneud sylwadau ar sail gweithdrefn ddiffygiol ar ein rhan. Dylid codi cwyn o'r natur hon drwy [weithdrefn gwyno QAA](#).

Cysylltu â ni

53. Am ganllawiau pellach ar unrhyw agwedd ar y broses hon, cysylltwch â:

Concerns, The Quality Assurance Agency for Higher Education, Southgate House,
Southgate Street, Gloucester, GL1 1UB

E-bost: Concerns@qaaacuk.onmicrosoft.com

Teleffon: 01452 557000 (neges llais yn unig)

Atodiad 1: Canlyniadau o ymchwiliadau i bryderon

Mae'r tabl isod yn nodi'r meini prawf a fydd yn cael eu defnyddio gan dimau ymchwilio i benderfynu ar ganlyniad ymchwiliad i bryderon. Bwriad y meini prawf yw cynorthwyo timau i ddod i gasgliadau ond ni ddylid eu hystyried yn rhestr bendant a ddefnyddir yn rhagnodol. Bydd barn broffesiynol y tîm ymchwilio yn ystyried y dystiolaeth a'r amgylchiadau penodol.

Math o broblem			
Ni chanfuwyd unrhyw broblemau	Nid yw problemau'n dynodi problemau systemig wrth reoli safonau academiaidd, ansawdd na gwybodaeth.	Mae problemau'n rhannol systemig, yn yr ystyr nad yw prosesau a gweithdrefnau o bosibl yn gweithredu mor effeithiol ag y gallent.	Mae problemau'n dynodi problemau systemig wrth reoli safonau academiaidd, ansawdd neu wybodaeth.
Argymhellion ar gyfer gweithredu			
Nid oes unrhyw argymhellion ar gyfer gweithredu.	Yn nodweddiadol, gallai argymhellion ymwneud â: - mân hepgoriadau neu esgeulustod - angen i ddiwygio neu ddiweddarau manylion mewn dogfennaeth, lle na fydd y diwygiad yn gofyn am newid strwythurol, gweithredol neu weithdrefnol mawr nac yn arwain at hynny - cwblhau gweithgaredd sydd eisoes ar y gweill mewn nifer fach o feysydd a fydd yn caniatáu i'r darparwr fodloni gofynion sylfaenol yn llawnach.	Yn nodweddiadol, gallai argymhellion ymwneud â: - gwendidau yng ngweithrediad rhan o strwythur llywodraethu (academaidd) y darparwr neu ddiffyg eglurder ynghylch cyfrifoldebau - pwyslais neu flaenoriaeth annigonol a roddir i sicrhau safonau, ansawdd, neu wybodaeth ym mhrosesau'r darparwr - gweithdrefnau sydd, er eu bod yn ddigonol ar y cyfan, â rhai diffygion o ran y trylwyredd y cânt eu cymhwyso	Yn nodweddiadol, gallai argymhellion ymwneud â: - gweithrediad aneffeithiol o rannau strwythur llywodraethu academiaidd y darparwr - bylchau sylweddol mewn polisi, strwythurau neu weithdrefnau sy'n ymwneud â safonau academiaidd y darparwr, sicrhau ansawdd, neu ansawdd gwybodaeth - y darparwr yn torri ei weithdrefnau rheoli sicrhau ansawdd ei hun

		• problemau sydd wedi'u cyfyngu i ran fach o weithgareddau'r darparwr	
Ymateb y darparwr			
Nid yw pryderon a godwyd yn cael eu cadarnhau neu mae unrhyw bryderon eisoes wedi'u datrys.	Mae'r darparwr wedi cydnabod yr angen i weithredu i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd, ac mae wedi darparu tystiolaeth glir o gymryd camau gweithredu priodol o fewn amserlen resymol.	Nid yw cynlluniau'r darparwr ar gyfer mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd wedi'u datblygu'n llawn neu nid ydynt wedi'u hymgorffori'n llawn yng nghynllunio gweithredol y darparwr. Mae blaenoriaethau neu gamau gweithredu diweddar y darparwr yn awgrymu nad yw efallai'n gwbl ymwybodol o arwyddocâd rhai materion.	Nid yw'r darparwr wedi cydnabod bod ganddo broblemau mawr neu nid yw wedi cynllunio camau gweithredu sylweddol i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd. Nid yw cynlluniau'r darparwr ar gyfer mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ddigonol i unioni'r problemau, neu nid oes llawer o dystiolaeth o gynnydd, neu ddim tystiolaeth o gwbl.
Canlyniadau			
Dim angen gweithredu ymhellach.	Mae'n ofynnol i'r darparwr ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion y tîm ymchwilio ar gyfer gweithredu. Bydd gweithrediad y cynllun gweithredu yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymweliad Monitro Blynnyddol nesaf.	Mae'n ofynnol i'r darparwr ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion y tîm ymchwilio ar gyfer gweithredu. Bydd gweithredu'r cynllun gweithredu yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymweliad Monitro Blynnyddol nesaf, a gall y tîm ymchwilio ddewis argymhell bod yr ymweliad yn cael ei ddwyn ymlaen.	Mae'n ofynnol i'r darparwr ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion y tîm ymchwilio ar gyfer gweithredu a chael adolygiad llawn.

Atodiad 2: Diogelu Data

Mae QAA yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU), Deddf Diogelu Data 2018, ac unrhyw ddeddfwriaeth Diogelu Data perthnasol arall mewn perthynas â data personol. Dim ond at ddibenion cynnal ei gweithgareddau adolygu y mae QAA yn prosesu data personol ac, yn yr achos hwn, gan sicrhau mai dim ond y rhai sydd angen mynediad iddynt i gyflawni gofynion y broses ymchwilio i Bryderon y bydd y data ar gael.

Mae QAA wedi ymrwymo i sicrhau a chynnal diogelwch a chyfrinachedd data personol a/neu ddata categori arbennig, ac mae pob aelod o staff yn gyfrifol am drin data yn unol â [Pholisi Diogelu Data](#) QAA fel bod gwybodaeth bersonol a gwybodaeth categori arbennig yn cael ei phrosesu mewn modd sy'n cydymffurfio. Mae holl staff ac adolygwyr QAA yn cael hyfforddiant GDPR a diogelwch gwybodaeth yn flynyddol. Mae sut mae QAA yn casglu ac yn prosesu gwybodaeth bersonol, hawliau'r unigolyn a rhwymedigaethau QAA wedi'u nodi yn [Hysbysiad Preifatrwydd](#) QAA. Mae Polisi a gweithdrefn Adrodd ar Ddigwyddiadau Diogelu Data ar gyfer adrodd, asesu a rheoli digwyddiadau.

Mae QAA yn storio data personol a data nad yw'n bersonol yn ddiogel ac yn sicrhau mai dim ond y rhai sydd angen mynediad ato i gynnal y broses ymchwilio i Bryderon sy'n gallu cael mynediad at y data. Bydd yr holl ddata neu bob copi neu ddyfyniad a wneir ohono naill ai'n cael ei ddychwelyd i'r ymgeisydd, ei ddinistrio ar gais yr ymgeisydd, neu ei ddinistrio yn unol â pholisi cadw cofnodion QAA. Mae QAA wedi'i hardystio yn ôl ISO 27001 a Cyber Essentials ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth.

Diweddarwyd diwethaf – Rhagfyr 2025

© The Quality Assurance Agency for Higher Education 2025 Southgate House Southgate Street
Gloucester GL1 1UB Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Tel 01452 557000 (neges llais yn unig)

Gwefan www.qaa.ac.uk